Rhif: **WG24460**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

## Cynnwys a chynorthwyo disgyblion

Canllawiau diwygiedig i ymarferwyr

Dyddiad cyhoeddi: **17 Rhagfyr 2015**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **11 Chwefror 2016**

# Cynnwys a chynorthwyo disgyblion

**Trosolwg**

Cyhoeddwyd y canllawiau *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* gwreiddiol yn 2006. Mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud ers hynny, o ran deddfwriaeth a pholisi, ac mae angen adlewyrchu'r newidiadau hyn mewn fersiwn wedi'i diweddaru.

**Sut i ymateb**

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **11 Chwefror 2016** fan hwyraf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:
Y Gangen Lles Disgyblion
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: wellbeingshare@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 029 2082 6939

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG24460

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Beth yw'r prif faterion?

Mae'r Canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion yn helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i greu amgylchedd dysgu cynhwysol a chefnogol lle gall pob dysgwr gyflawni ei botensial. Mae'r ddogfen anstatudol yn darparu amlinelliad sylfaenol o'r hyn y mae'n ofynnol i ysgolion ac awdurdodau lleol ei wneud er mwyn cynorthwyo a chynnwys pob disgybl. Mae hefyd yn cyfeirio at y canllawiau manwl priodol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd y canllawiau gwreiddiol yn 2006 ac maent yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r newidiadau sydd wedi'u gwneud ers hynny o ran deddfwriaeth a pholisi.

## Ble rydym ni nawr?

http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/inclusionpupilsupportguidance/?skip=1&lang=cy

## Newidiadau polisi a deddfwriaeth

Mae llawer o newidiadau wedi'u gwneud ers cyhoeddi'r ddogfen wreiddiol yn 2006, o ran polisi a deddfwriaeth, ac mae angen adlewyrchu'r newidiadau hyn mewn canllawiau diwygiedig.

Bydd y diweddariad hwn hefyd yn helpu i gyflawni nifer o ymrwymiadau gan gynnwys:

Ymrwymiad y *Rhaglen Lywodraethu* i helpu pawb i gyflawni ei botensial, lleihau anghydraddoldeb, a gwella lles economaidd a chymdeithasol;

Mae cynhwysiant a lles yn sail i'r pedwar amcan strategol a nodwyd yn *Cymwys am Oes*, gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru er mwyn gwella addysg yng Nghymru.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Prifysgol Caeredin, *Gwerthuso'r ddarpariaeth addysg i blant a phobl ifanc a addysgir y tu allan i'r ysgol*, yn cynnwys ymrwymiad penodol i ddiweddaru'r canllawiau.

## Pa newidiadau penodol rydym yn eu cynnig?

- Cyhoeddir canllawiau ar Addysg Ddewisol yn y Cartref ar wahân fel canllawiau annibynnol.
- Bydd yr atodiad sy'n ymwneud â defnyddio codau presenoldeb yn cael ei dynnu o'r ddogfen Cynnwys a Chefnogi Disgyblion ac yn cael ei gyhoeddi fel canllawiau annibynnol. Bydd hyn yn cael eu hadolygu yn 2016.
- Er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn gallu gweld y canllawiau diweddaraf byddant ar gael ar-lein yn unig. Bydd hyn yn golygu bod modd diweddaru'r cynnwys yn fwy rheolaidd â chyn lleied ag sy'n bosibl o gost ychwanegol.